**CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD**
**PWYLLGOR GWEITHREDOL CANGEN SENEDD CYMRU**

**ADRODDIAD I GANGEN Y SENEDD AM Y CYFNOD**
**22 Tachwedd 2022 – 5 Rhagfyr 2023**

## Cefndir

Cytunodd Senedd Cymru yn unfrydol ar gynnig a lofnodwyd gan arweinwyr y pedair plaid i wneud cais i gael ei derbyn yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) ar 7 Gorffennaf 1999. Croesawyd Cymru yn ffurfiol yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yng nghyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas yn Trinidad ar 19 Medi 1999.

## Strwythur y Gangen

**Mae pob un o Aelodau'r Senedd yn aelod awtomatig o Gangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.**

## Deiliaid Swyddi:

*Llywydd:* Elin Jones AS
*Is-lywydd:* David Rees AS
*Cadeirydd:* Rhun ap Iorwerth AS
*Ysgrifennydd:* Manon Antoniazzi,
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
*Ysgrifennydd Dros Dro:*
*Al Davies, Uwch-reolwr Cysylltiadau Rhyngwladol a Phrotocol*

## Pwyllgor Gweithredol y Gangen

Rhianon Passmore AS
Alun Davies AS
Natasha Asghar AS
Sam Rowlands AS
Delyth Jewell AS

**RHAGAIR Y CADEIRYDD**

Mae'r cyfnod adrodd hwn yn cwmpasu blwyddyn gynhyrchiol arall i Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Mewn rhai ffyrdd, cafwyd rhaglen ysgafnach yn sgil y ffaith na chynhaliwyd cynadleddau seneddol ffurfiol gan y Gymanwlad ar gyfer menywod a phobl ifanc yn 2023. Er hynny, bu llawer o gyfleoedd i Aelodau gymryd rhan o hyd.

Roedd y gweithgarwch hwn yn cynnwys cymryd rhan mewn cynhadledd ranbarthol yn San Steffan, yn ogystal â chynhadledd seneddol flynyddol y Gymanwlad yn Accra, Ghana.

Rydym wedi sicrhau cynrychiolaeth mewn rhaglenni arwain ar gyfer menywod ym Mrwsel a Reykjavik, ac rydym wedi parhau i gymryd rhan mewn rhaglenni'r Gymdeithas ar gyfer Aelodau ag anableddau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Senedd wedi bod yn falch i groesawu Uchel Gomisiynwyr a dirprwyaethau sy'n cynrychioli nifer o Seneddau'r Gymanwlad, gan gynnwys Seland Newydd, St Helena, Namibia ac, yn benodol, dwy ddirprwyaeth o Senedd ffederal Canada.

Mae 2024 yn argoeli'n dda o ran bod yn flwyddyn brysur a chyffrous i'n Cangen, gyda chynadleddau wedi'u trefnu ym Malta, St Helena, Sydney (NSW), a Seland Newydd, yn ogystal ag ymweliadau mewnol disgwyliedig â'r Senedd gan amrywiaeth o Seneddau'r Gymanwlad, gan gynnwys Quebec a Fiji. Edrychaf ymlaen at eich diddordeb a'ch ymgysylltiad parhaus yn y rhain a llawer o gyfleoedd eraill y Gymdeithas.

***Rhun ap Iorwerth AS***
*Cadeirydd Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.*

**DETHOLIAD O'R GWEITHGAREDDAU YN YSTOD CYFNOD YR ADRODDIAD**:

1. **Cymryd rhan mewn Cynadleddau a Seminarau'r Gymdeithas**

***CPA y DU – Gweithdy Masnach ar gyfer Tiriogaethau Tramor, Tiriogaethau Dibynnol y Goron a'r Deddfwrfeydd Datganoledig.***
***San Steffan***
***Chwefror 2023***

Dewiswyd Alun Davies AS i gymryd rhan yn y rhaglen hon. **Adroddiad**

***71ain Seminar San Steffan***
***Mawrth 2023***

Cynrychiolodd Peredur Owen Griffiths AS y Senedd yn Seminar San Steffan eleni. **Adroddiad** (allanol)

***52ain Gynhadledd Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir (BIMR)*** *(a gynhaliwyd gan CPA UK)*
***San Steffan***
***Ebrill 2023***

Cynhaliwyd y gynhadledd ranbarthol eleni yn Senedd y DU. Yn bresennol roedd Cadeirydd y Gangen, Is-lywydd y Gangen, sef David Rees AS, yn ogystal â Rhianon Passmore AS a Joyce Watson AS. Yn ystod y gynhadledd, trafodwyd nifer o themâu y bu ein rhanbarth yn canolbwyntio arnynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys pwysigrwydd Seneddau amrywiol a chynhwysol, safonau ymddygiad, a'r argyfwng hinsawdd.

**Adroddiad** (allanol)

***66ain Gynhadledd Seneddol y Gymanwlad***
***Accra, Ghana***
***Hydref 2022***

Cynrychiolodd Adam Price AS a Carolyn Thomas AS y Senedd ym mhrif gynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad eleni. Roedd dros 500 o Seneddwyr y Gymanwlad yn bresennol yn y gynhadledd honno. Roedd y cyfarfodydd llawn a'r gweithdai a gynhaliwyd yn cynnwys trafodaethau ynghylch nifer o faterion, gan gynnwys hawliau pobl LHDTC+ a chydraddoldeb rhwng y rhywiau, a hynny yng nghyd-destun ehangach thema'r Gynhadledd, sef "*Siarter y Gymanwlad 10 mlynedd yn ddiweddarach:* Gwerthoedd ac Egwyddorion i Seneddau eu Cynnal'".
**Adroddiad**

## 2. Seneddwragedd y Gymanwlad

Roeddem yn siomedig am y ffaith na chynhaliwyd cynhadledd rhanbarthol ffurfiol ar gyfer Seneddwragedd y Gymanwlad yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Serch hynny, mae Aelodau o'r Senedd wedi cymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad, yn ogystal â gweithgareddau cysylltiedig eraill.

Yn nodedig, cafodd Rhianon Passmore AS ei hailethol fel Is-Gadeirydd Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR, a chafodd ei dewis i gynrychioli ein rhanbarth BIMR yn yr Uwchgynhadledd ar gyfer Arweinwyr Gwleidyddol Benywaidd ym Mrwsel (Mehefin 2023), yn ogystal â Fforwm Byd-eang Reykjavik – Arweinwyr Benywaidd (Tachwedd 2023)

Mae Aelodau benywaidd o Bwyllgor Gweithredol Cangen y Senedd hefyd wedi chwarae rhan weithredol yng Nghawcws Menywod y Senedd, a lansiwyd ym mis Mehefin eleni. Ym mis Tachwedd 2023, cymerodd Delyth Jewell AS, Carolyn Thomas AS a Joyce Watson AS ran mewn sesiwn ar y cyd â dirprwyaeth o Senedd Canada, gan drafod a chyfnewid arferion gorau, yn ogystal â rhannu profiadau personol ar y thema "Menywod mewn Seneddau".

## 3. Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau (CPwD)

Mae Mark Isherwood AS wedi parhau i chwarae rhan weithredol yn rhwydwaith Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau. Roedd gweminar a gynhaliwyd yn ddiweddar – y digwyddiad diweddaraf mewn cyfres o gyflwyniadau yn ymwneud ag anabledd – yn cynnwys cyflwyniad ynghylch SEE Around Britain. Roedd prosiect i gefnogi hygyrchedd ar gyfer pobl ag anableddau wedi'i gynnig gan Mark Isherwood, a fu hefyd yn trafod gwaith Anabledd Dysgu Cymru.

## 4. Ymweliadau nodedig a gweithgareddau eraill.

***Ymweliad gan Stephen Twigg, Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas*** *(Mehefin 2023).*

Roedd Cangen y Senedd yn falch o gael y cyfle i hwyluso rhaglen gynhwysfawr ar gyfer ymweliad yr Ysgrifennydd Cyffredinol â'r Senedd. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys cyfarfodydd gyda deiliaid swyddi ac ysgrifenyddiaeth y Gangen, yn ogystal â chyfarfodydd â Huw Irranca-Davies AS a Mark Isherwood AS. Roedd y cinio a ddarparwyd gan y Gangen yn gyfle i drafod amrywiaeth o faterion, gan gynnwys hawliau LHDT, Seneddwyr ag Anableddau, a statws cyfreithiol y Gymdeithas.

***Gweminar y Gangen ar nodau datblygu cynaliadwy: Y tu hwnt i 2030*** (Awst 2023)
***(Huw Irranca-Davies AS yn cyfrannu)***

Roedd Huw Irranca-Davies AS yn un o bump o banelwyr a gymerodd ran yn y weminar hon, gan gynrychioli ystod o Seneddau'r Gymanwlad.

Yn ystod y weminar, archwiliodd y panelwyr fap ffordd ar gyfer llunio rhagolygon ynghylch datblygu cynaliadwy ar ôl 2030. Gwnaethant drafod y pethau cadarnhaol a'r pethau negyddol sy'n gysylltiedig â'r nodau datblygu cynaliadwy presennol, gan nodi'r gwersi pwysig a ddysgwyd o ran goresgyn risgiau yn y dyfodol a manteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol.

**Linc i recordiad o'r weminar yma.**

***Gweithgor BIMR ar yr "Argyfwng Hinsawdd"***

Mae'r gweithgor hwn wedi cynnal sawl sesiwn dros y cyfnod adrodd hwn. Mae’r sesiynau hyn wedi cynnwys gweminar a gynhaliwyd gan San Steffan ar y testun “*Equinor a Stori Norwy*”, ac *“Y Cefnfor – Ein Cyfaill Hinsawdd”,* dan arweiniad Ynys Manaw, a archwiliodd ecosystemau “carbon glas”.

Bydd Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn ceisio ehangu’r cyfleoedd sydd ar gael i ragor o Aelodau gymryd rhan yn rhaglen y gweithgor hwn yn y dyfodol.

## 5. Ymwelwyr â’r Senedd o’r Gymanwlad.

Mae'r Gangen wedi cynorthwyo’r broses o ddatblygu rhaglenni ar gyfer ymwelwyr â'r Senedd, gan gynnwys Llefarwyr, Uchel Gomisiynwyr, a dirprwyaethau a swyddogion o wledydd a seneddau'r Gymanwlad, gan gynnwys Canada, Seland Newydd, St Helena (Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus), Namibia ac India.

## 6. Edrych tua'r dyfodol

2024

- 72fed Seminar San Steffan (Mawrth)
- Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR, Malta (Mawrth)
- Cynhadledd BIMR, St Helena (Mai)
- Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad, Sydney (NSW, Awstralia) (Tachwedd)
- Senedd Ieuenctid y Gymanwlad, Seland Newydd (Hydref – i'w gadarnhau)

Rhagfyr 2023